# Adroddiad Arolygu

**Spring Lilly Care**

**Princess House**
**Princess Way**
**Abertawe**
**SA1 3LW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Spring Lilly Care

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Spring Lilly Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Spring Lilly Care Ltd yn wasanaeth cymorth cartref newydd sy'n darparu gofal a chymorth i oedolion sy'n byw yn ardal Bae'r Gorllewin, Abertawe yn bennaf, ar hyn o bryd. Mae'r swyddfa gofrestredig yng nghanol y ddinas. Mae'r bobl yn cael gwasanaeth da a dibynadwy gan y staff gofal cyson a hapus. Mae gan y bobl gynlluniau personol sy'n adlewyrchu eu hanghenion presennol ac sy'n hawdd eu dilyn. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli, ac yn cael eu hyfforddi'n ddigonol yn eu rolau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn y swyddfa bob dydd ac fe'i cefnogir gan reolwr gweinyddol a thîm cydgysylltu penodedig. Mae systemau da ar waith i oruchwylio a monitro'r gwasanaeth a ddarperir a'i ansawdd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r bobl yn rheolaidd ac yn siarad â'r bobl, eu teuluoedd a'r staff er mwyn ysgogi gwelliannau.

## Llesiant

Mae gan y bobl lais ac maent yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Mae cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu cwblhau ar sail gwybodaeth a rennir gan yr unigolyn a'i gynrychiolwyr. Cwblheir adolygiadau o gynlluniau personol yn rheolaidd a nodir unrhyw faterion neu newidiadau. Mae cyfathrebu da rhwng y gwasanaeth a'r bobl y mae'n eu cefnogi. Mae'r bobl yn hapus ac yn canmol y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r bobl yn rheolaidd ac yn siarad â'r staff gofal i gael eu hadborth er mwyn ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel a chaiff y gwiriadau priodol eu cynnal. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon diogelu. Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau er mwyn helpu'r gwasanaeth i redeg yn ddidrafferth. Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch gan dîm gofal brwdfrydig. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio a'u fetio'n ddiogel ac maent yn teimlo'n fodlon a'u bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau ar ôl cwblhau hyfforddiant digonol.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth gywir am y gwasanaeth. Mae canllaw ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n nodi pa wasanaethau sydd ar gael iddynt. Mae cynlluniau personol ar gael yng nghartrefi'r bobl er mwyn iddynt eu darllen. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n gyfredol ac ar gael ar gais; mae copi o’r weithdrefn gwyno a rhifau cyswllt ar gael gyda’r cynllun personol yng nghartrefi'r bobl.

Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n dda. Gellir cysylltu â'r Unigolyn Cyfrifol a'r tîm rheoli yn hawdd, ac mae cyfathrebu effeithiol o fewn y gwasanaeth. Mae systemau wedi'u rhoi ar waith i gynnal, archwilio a monitro'r gwasanaeth a sicrhau bod unrhyw adolygiadau a diweddariadau yn cael eu cwblhau ar adegau priodol. Cwblheir adroddiadau rheoleiddio yn ôl yr angen.  I gynorthwyo gyda recriwtio, mae gan y gwasanaeth fflyd fechan o geir cwmni i gynorthwyo'r staff hyd nes y gallant brynu eu cerbyd eu hunain. Mae'r tîm rheoli yn ystyried llesiant y staff.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl ofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt drwy wasanaeth sydd wedi'i gynllunio drwy ymgynghori â nhw. Caiff cynlluniau personol eu hysgrifennu o safbwynt yr unigolyn a'u hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen. Mae'r gweithwyr gofal yn cadarnhau bod cynlluniau personol yn hawdd eu dilyn a'u bod yn diwallu anghenion y bobl yn dda. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys yn y broses o lunio eu cynlluniau personol o'r cam asesu. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol: *"They have spoken to us about the care plan, and they spoke to X directly to do ask him what he wants"* a "*Communication is very good, and they are very helpful at understanding our needs and offer good support".*

Mae systemau effeithiol ar waith i ddiogelu unigolion agored i niwed sy'n derbyn y gwasanaeth. Mae gan y gwasanaeth bolisi diogelu sy'n adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu Cymru y mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda ohonynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi meithrin perthynas dda â'r staff gofal a'u bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol yn eu cwmni. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol wrthym *"The management team are very professional, get the urgency for care, and are happy to help"* a *"They take on board the needs of people and understand any safeguarding concerns."*

Mae systemau diogel ar waith yn y gwasanaeth i roi cymorth i'r bobl gyda meddyginiaeth. Mae'r gweithwyr gofal cyson yn adnabod y bobl yn dda a byddant yn ceisio cyngor meddygol ar unwaith os oes angen. Gwelsom fod y gweithwyr gofal wedi cwblhau hyfforddiant meddyginiaeth a phrofion cymhwysedd i sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol er mwyn helpu i roi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu harchwilio'n rheolaidd a'u hanfon at y tîm rheoli meddyginiaeth yn ôl yr angen. Er bod y gwasanaeth yn gymharol newydd, dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt weithwyr gofal rheolaidd yn eu cefnogi. Roedd y sylwadau'n cynnwys: *"we have a team of about six care workers now, but to be fair we know them all and they know X well"* a *"they always ask Y if they are ok and if they can do anything else to help."*

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau sy’n cael eu hadolygu a’u diweddaru i adlewyrchu unrhyw newid mewn deddfwriaeth. Gwelsom Ddatganiad o Ddiben y gwasanaeth sy'n adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth a'r hyn y mae'n ei ddarparu. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio system galwadau electronig er mwyn monitro a yw'r staff gofal yn cynnal eu galwadau yn ddiogel ac mewn modd amserol. Mae hyn yn helpu i oruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir, gall sbarduno camau gweithredu prydlon os ceir unrhyw rybuddion ac mae'n lleihau'r risg o golli galwadau. Mae'r tîm rheoli wedi sefydlu taenlenni i sicrhau bod gwiriadau ac archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Mae hyn yn cynnwys adolygu cynlluniau gofal, goruchwylio'r staff a diweddariadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y staff gofal. Gwelsom fod systemau ar waith i sicrhau bod yr holl wiriadau archwilio yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen ofynnol.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan weithwyr gofal sydd wedi cael eu fetio, eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol i ddiwallu eu hanghenion. Gwelsom ddwy ffeil bersonél a gwelsom fod gwiriadau recriwtio a gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith, gan gynnwys gwiriadau trwyddedau gwaith priodol ar gyfer gweithwyr tramor. Gwnaethom edrych ar y matrics hyfforddiant staff a nodi bod yr holl staff wedi mynychu hyfforddiant gorfodol i'w cefnogi yn eu rôl ofalu. Mae'r gweithwyr gofal y siaradwyd â nhw yn canmol y rheolwyr, sy'n hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Mae'r gweithwyr gofal yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rôl. Dyweodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym fod trefniadau ar waith i'r staff gofal newydd gael defnyddio cerbydau cwmni hyd nes y gallant brynu eu cerbydau eu hunain. Gwelsom fod rhai o'r gweithwyr gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae trefniadau ar waith i'r gweithwyr gofal newydd gwblhau'r broses gofrestru. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac mae trefniadau ar waith i gynnal arfarniadau bob blwyddyn unwaith y bydd y gwasanaeth wedi bod yn weithredol am flwyddyn.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau da i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn aelod gweithgar o dîm y swyddfa ac mae'n weladwy yn y gwasanaeth bob dydd. Cefnogir yr Unigolyn Cyfrifol gan dîm a rheolwr gweinyddol sydd hefyd yn cynnal galwadau cymunedol os oes angen er mwyn sicrhau gofal parhaus i'r bobl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cael adborth yn rheolaidd gan y bobl sy'n derbyn y gwasanaeth a'r gweithwyr gofal er mwyn ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth. Gwelsom yr adolygiad cyntaf o ansawdd y gofal a gwblhawyd gan yr Unigolyn Cyfrifol sy'n amlinellu sut mae'r gwasanaeth yn perfformio, y gwelliannau a nodwyd a sut y byddai'r rhain yn cael eu gweithredu. Roedd y bobl, y gweithwyr proffesiynol, a’r staff y siaradwyd â nhw i gyd wedi canmol tîm rheoli'r gwasanaeth yn fawr, ac roedd y sylwadau’n cynnwys: “*They are very*

*accessible and always call back if they are busy", "we are very valued as a care team"* a *"they really helped us out at a time when we were really struggling".*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/08/2023